Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar nos Fercher y 9fed o Fehefin 2010 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol : Y Cyng. Christopher Parish (Cadeirydd), y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Ieuan Gwyn y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Julia Jones
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: y Cyng. Hugh Towns, y Cyng. Ros Bellamy

Cof 79 / Mehefin /10 Ethol Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar gyfer 2010-11

Enwebodd y Cyng. Edward Thomas y Cyng. Julia Jones fel Cadeirydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng. Julia Jones yr enwebiad.

Cof 80 /Mehefin /10 Ethol Is Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar gyfer 2010-11

Enwebodd y Cyng. Colin Jenkins y Cyng. Hugh Towns fel Is Gadeirydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid. Byddai'n rhaid holi'r Cyng. Towns ynglŷn â'r penodiad.

Cof 81/ Mehefin / 10 Cyfrifon i'w talu

Chubb Fire Limited (cynnal a chadw diffoddiaduron)	£ 51.76
JW Thomas (Bwydlenni Cinio'r Maer)	£ 100.00
Morgan & Morgan (offer ysgrifennu)	£ 122.74
Ar y Gair (cyfieithu cofnodion Ebrill)	£ 139.60
Gwesty'r White Hart (costau Cinio'r Maer)	£ 1,719.00
Adnewyddu aelodaeth cymdeithas y Clercod	£ 95.00

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 82/ Mehefin / 10 Incwm a Dderbyniwyd ym Mai 2010

Arian parod/sieciau (derbyniadau Cinio'r Maer)	£ 525.00
Rhodd y Gymdeithas Gymunedol tuag at ddigwyddiadau ym Mharc Penlan	£ 1,000.00

Cof 83/ Mehefin / 10 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 31.5.10)	£ 26,889.24
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 27.3.10)	£ 17,168.45
Cyfrif Maer CTLl (fel ar 20.5.10)	£ 574.20

Derbyniwyd hysbysiad o dalu TAW am	£	5,493.62
Derbyniadau Cinio'r Maer hyd yn hyn	£	950.00

Cof 84/ Mehefin / 10 Materion Ariannol Eraill

1. Cyflwynodd y Swyddog Cyllid y Rhagolwg Cyllideb 3 blynedd gyfredol. Cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn na ddylid gwneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

2. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

   i) Gofal Galar Cruse Sir Gaerfyrddin (band B) £50 Cynigwyd gan y Cyng. Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas
   ii) Cerebra, Caerfyrddin (band B) £50 Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Charlotte Leadbeater
   iii) Dinasyddion Hŷn Llandeilo (band C) £150 Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas
   iv) Academi Celf Alexander Talbot Rice (band A) adran 145 - £50 Cynigwyd gan y Cyng. Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Chris Parish
   v) RNIB (band A) (adran 137) £25 Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Chris Parish

   Dathliad Sgowtiaid y Byd 2011 - gohiriwyd nes y flwyddyn nesaf.
   Gofynnwyd i'r Clerc i ofyn i Marie Curie i gyflwyno datganiad ariannol. Mae angen cysylltu â Chyfeillio Tenovus Llandeilo
3. Prynu Regalia'r Cyngor
   Argymhellodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn prynu un bathodyn swydd ar gyfer consort y Maer, am bris o £360. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Chris Parish. Roedd pawb o blaid.
   Cynigodd y Cyng. Edward Thomas mai du dylai lliw'r rhuban fod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins ddiwygiad, mai lliw gwin dylai'r rhuban fod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Chris Parish. Cafodd y diwygiad hwn ei gario gan 4 pleidlais i 3 pleidlais.
   Cytunwyd y dylid ceisio dyfynbrisiau ar gyfer cost Medal y cyn-faer a Broes y cyn-faeres.
   Cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn y dylid holi ynghylch pris bar gyda dyddiad Blwyddyn y Maer yn y Swydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Chris Parish.
   Argymhellodd y Cyng. Colin Jenkins bod bwrdd y Meiri yn cael ei ddiweddaru a bod dyfynbris yn cael ei geisio. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ieuan Gwyn.

Cof 85 / Mehefin /10 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Gŵyl y Synhwyrau Llandeilo. Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn rhestr o dderbynebau a thaliadau oddi wrth Kindered. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn ysgrifennu i ofyn am gopi o'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer gŵyl 2009/10 cyn y gallai'r Cyngor ystyried rhoi rhodd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roy Davies. Tra'r oedd y Cyngor yn gydymdeimladol tuag at yr Ŵyl, roedd yn rhaid i'r Cyngor i lynu wrth ei Reoliadau Ariannol.
2. Gŵyl Gerdd a Blodau Llandeilo 2010. Llythyr yn gofyn am y nawdd a gytunwyd.

Arwyddodd y Cyng. Julia Jones y llyfr o fynegiannau o fuddiant a gadawodd yr ystafell tra bod yr eitem hon yn cael ei thrafod.
Cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn bod y swm a gytunwyd o £ 3,000 yn cael ei dalu.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 86 / Mehefin /10 Goblygiadau Ariannol Adroddiad y Swyddog Technegol

Argymhellwyd bod yr eitemau canlynol, sydd eu hangen ar gyfer digwyddiadau awyr agored cyhoeddus, yn cael eu prynu:-
Un diffoddiadur powdwr (£45.81), un diffoddiadur ewyn (£46.98), un blanced dân (£ 11.73) ac un megaffon bach (£15.26) i gydymffurfio â'r rheoliadau tân.
Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Roedd Mr Davies wedi llunio archeb i adnewyddu'r seddau a'r byrddau ar hyd y Cilgant am bris o £45.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y gwaith o drin Pydredd Sych yn cael ei gyflawni yn Neuadd y Sir am bris o £168. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Chris Parish.

Cof 87/ Mehefin /10 Eitemau arall o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i geisio dyfynbrisiau i osod Band Eang yn y swyddfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25yh.